# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 24 Medi 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14107

## 228

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.25

## Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 14.59

**Derbyniwyd y cynnig o dan Reolau Sefydlog 12.24 a 12.40 i grwpio'r cynigion a ganlyn ar gyfer eu trafod a phleidleisio arnynt:**

**NNDM8669** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

1. Mick Antoniw (Llafur Cymru) yn lle Mark Drakeford (Llafur Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

2. John Griffiths (Llafur Cymru) yn aelod amgen o’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Jack Sargeant (Llafur Cymru).

**NNDM8670** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Vaughan Gething (Llafur Cymru) yn lle Rhianon Passmore (Llafur Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Deisebau.

**NNDM8671** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Lesley Griffiths (Llafur Cymru) yn lle Sarah Murphy (Llafur Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

**NNDM8672** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Lesley Griffiths (Llafur Cymru) yn lle Mark Drakeford (Llafur Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**NNDM8673** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Hannah Blythyn (Llafur Cymru) yn aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**NNDM8674** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mick Antoniw (Llafur Cymru) yn lle Carolyn Thomas (Llafur Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**NNDM8675** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Vaughan Gething (Llafur Cymru) yn lle Jack Sargeant (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

**NNDM8676** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Rhianon Passmore (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.

**Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhynglywodraethol

Dechreuodd yr eitem am 15.00

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 15.41

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Partneriaeth newydd i drawsnewid ein rheilffyrdd

Dechreuodd yr eitem am 16.16

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Parodrwydd ar gyfer y gaeaf yn y GIG

Dechreuodd yr eitem am 16.59

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.79 i dynnu Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn ôl

Dechreuodd yr eitem am 17.43

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8658** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.79:

Yn cytuno y caniateir i Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) gael ei dynnu'n ôl.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 12 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.32

Daeth y cyfarfod i ben am 18.33

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 25 Medi 2024**